## GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A489 A’R A483 (FFORDD OSGOI’R DRENEWYDD, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A489 a’r A483 yn y Drenewydd, Powys, neu gerllaw iddynt.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio’r cerbydau hynny a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar:

i. Y darn o gefnffordd yr A489 sy’n ymestyn o ochr ddwyreiniol Cylchfan David Davies hyd at ochr orllewinol Cylchfan Laura Ashley.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy’n teithio tua’r gogledd/tua’r dwyrain yw mynd ar Llanidloes Road tua’r gogledd-ddwyrain, Mochdre Lane tua’r de, Heol Ashley tua’r dwyrain a Dolfor Road tua’r de i ymuno â’r A483 wrth Gylchfan Laura Ashley: i’r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy’n teithio tua’r gorllewin.

ii. Y darn o gefnffordd yr A483 sy’n ymestyn o ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Laura Ashley hyd at ochr dde-orllewinol Cylchfan Pryce Jones.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy’n teithio tua’r gogledd/tua’r dwyrain yw mynd ar Dolfor Road tua’r gogledd a New Road a Kerry Road tua’r dwyrain i ymuno â’r A483 wrth Gylchfan Pryce Jones: i’r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy’n teithio tua’r de/tua’r gorllewin.

Dylai cerbydau sy’n 13’ 3” neu drosodd sy’n teithio tua’r gogledd/tua’r dwyrain ddilyn yr A489 tua’r gorllewin hyd at groesfan Caersŵs, yr A470 tua’r gogledd-orllewin hyd at ei chyffordd â’r B4568 i Lanwnnog a’r B4568 a Kerry Road tua’r dwyrain i ymuno â’r A483 wrth Gylchfan Pryce Jones: i’r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy’n teithio tua’r de/tua’r gorllewin.

iii. Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pryce Jones hyd at ochr dde-orllewinol Cylchfan Robert Owen.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy’n teithio tua’r gogledd/tua’r dwyrain yw mynd ar Kerry Road tua’r gorllewin a Pool Road tua’r gogledd-ddwyrain i ailymuno â’r A483 wrth Gylchfan Robert Owen: i’r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy’n teithio tua’r de/tua’r gorllewin.

## THE A489 & A483 TRUNK ROADS (NEWTOWN BYPASS, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is required to undertake works on or near the A489 and A483 trunk roads at Newtown, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those vehicles being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on:

i. The length of the A489 trunk road that extends from the eastern side of the David Davies Roundabout to the western side of the Laura Ashley Roundabout.

The alternative route for north/eastbound traffic is via the north-eastbound Llanidloes Road, southbound Mochdre Lane, eastbound Heol Ashley and southbound Dolfor Road to join the A483 at the Laura Ashley Roundabout: vice versa for westbound traffic.

ii. The length of the A483 trunk road that extends from the north-eastern side of the Laura Ashley Roundabout to the south-western side of the Pryce Jones Roundabout.

The alternative route for north/eastbound traffic is via the northbound Dolfor Road and eastbound New Road and Kerry Road to join the A483 at the Pryce Jones Roundabout: vice versa for south/westbound traffic.

North/eastbound vehicles of or over 13’ 3” should follow the westbound A489 to Caersws level crossing, north-westbound A470 to its junction with the B4568 to Llanwnnog and eastbound B4568 and Kerry Road to join the A483 at the Pryce Jones Roundabout: vice versa for south/westbound vehicles.

iii. The length of the A483 trunk road that extends from the north-eastern side of the Pryce Jones Roundabout to the south-western side of the Robert Owen Roundabout.

The alternative route for north/eastbound traffic is via the westbound Kerry Road and north-eastbound Pool Road to re-join the A483 at the Robert Owen Roundabout: vice versa for south/westbound traffic.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 13 Mehefin 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) o 13 – 19 Mehefin 2025 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

The Order comes into force on 13 June 2025. The temporary prohibitions are expected to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) from 13 – 19 June 2025, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government